

PAM DILYN CYNGOR Y BEIBL?

Nodyn i'r siaradwr:

Datblygwch y deunydd â rhesymeg gadarn fel ei fod yn apelio i'r meddwl, a chyflwynwch y deunydd ag argyhoeddiad cryf sy'n apelio at y galon. Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi mai llyfr ddoethineb achubol Jehofa yw'r Beibl, a'r bendithion sy'n dod o ddilyn ei gyngor. Wrth eu hadrodd, gwnewch i'r hanesion ddod yn fyw

FEL AWDUR Y BEIBL MAE JEHOFA YN DARPARU CYFEIRIAD I'R DDYNOLIAETH (5 mun.)

Mae gallu Duw fel cyfarwyddwr i'w weld yn Ei greadigaeth, yn y pethau byw a'r difywyd, (*g82-E 7/22 12*)

Ei ddeddfau ef sy'n rheoli mudiant a disgyrchedd y sêr (*Job 38:32, 33; w05-E 4/1 6*)

Y reddf naturiol a roddodd Duw i'r adar a'r creaduriaid eraill sydd yn ei harwain (*Job 39:26; Dia 30:24-28; g-E 7/07 3*)

Maeis gan y ddynolryw i gyfeirio eu bywydau, ond maen nhw'n cael cyfarwyddyd ysgrifenedig sydd o fudd bawb (*Sal 48:14; Jer 10:23*)

Mae sêr ac adar yn derbyn rhywfaint o arweiniad, ond mae gan y ddynoliaeth gyfarwyddyd gan Dduw, sy'n arwain at fywyd tragwyddol (*w07-E 5/1 14, 18*)

A wnewch chi ganiatáu i Dduw eich arwain drwy ei Air, y Beibl? (*g-E 7/07 5-6*)

O ddarllen pedwar neu bump o dudalennau'n ddyddiol, gallwch ddarllen y Beibl cyfan mewn blwyddyn

Gall ddarllen a myfyrio ar ran o'r Beibl bob dydd wella ansawdd eich bywyd

Nawr archwiliwn bedair agwedd o gyfarwyddyd y Beibl

1. Y BEIBL YW CANLLAW YMDDYGIAD AR GYFER Y DDYNOLRYW (8 mun.)

Mae'r Beibl yn darparu safonau moesol sydd heb ei ail

Nid yw dilyn cyngor y Beibl byth yn achosi niwed inni [*Darllenwch 2 Timotheus 3:16*]

Cymerwch fel enghraifft safonau'r Beibl ynglŷn â glendid a moesoldeb

Nodwch sut mae pobl yn elwa ar gadw safonau Duw, ond yn dioddef o'u hanwybyddu

[*Fel enghreifftiau, ystyriwch ddefnydd o dybaco ac anfoesoldeb rhywiol. Defnyddiwch y cyfeiriadau isod i amlygu'r canlyniadau drwg a'r trafferthion cymhleth sy'n dod o anwybyddu egwyddorion y Beibl. Hefyd amlygwch sut y mae bywyd iachus, cydwybod lân, a heddwch yn dod o ddilyn egwyddorion y Beibl (Dia 1:2-4; 3:1, 2)*]

Tybaco (*w07-E 4/1 5; g-E 7/07 6-7; gm-E 165-6; rs-E 109-11*)

Anfoesoldeb rhywiol (*g-E 4/07 3-4; g00-E 4/8 6; gm-E 168-70; rs-E 370*)

2. MAE'R BEIBL YN GANLLAW EFFEITHIOL SY'N ARWAIN AT WIR HAPUSRWYDD (4 mun.)

Y Beibl sy'n diwallu'r angen am gyfarwyddyd hanfodol sy'n hyrwyddo perthnasau hapus ac iachus, a theulu-oedd sefydlog (*Dia 3:13, 18, 21, 22; Mth 5:3; Lc 11:28; Dat 1:3*)

Bydd dilyn egwyddorion y Beibl yn helpu pawb i wella'u priodas (*g-E 7/06 6-9; rs-E 253-4*)

Yn y pen draw gwelwn mai cyngor y Beibl sydd wedi creu'r hapusrwydd gorau (*w04-E 9/1 6-7; w03-E 4/15 17*)

3. Y BEIBL YW CANLLAW DI-FFAEL SY'N ARWAIN AT WIR LWYDDIANT (5 mun.)

Mae Jehofa wastad yn gwbl lwyddiannus (*Esei 55:11*)

Trwy'r Beibl mae Jehofa'n dangos i bobl sut i lwyddo mewn bywyd (*Jos 1:7, 8; Sal 1:1-3*)

Mae'n rhybuddio rhag ceisio llwyddiant ariannol a bydol (*1Ti 6:9, 10; w90-E 4/1 12-13*)

4. Y BEIBL, YR UNIG GANLLAW SY'N ARWAIN AT FYWYD TRAGWYDDOL (4 mun.)

Diffygiol byddai canllaw at fywyd nad oedd yn cynnig gobaith at y dyfodol, oherwydd mae'r arolwg sydd gennym ni at y dyfodol yn ddylanwad cryf ar ein hymddygiad nawr.

Y Beibl sy'n sefyll allan fel yr unig lyfr a all ein harwain at y wobwr fwyaf sydd ar gael i bobl, bywyd tragwyddol (*Rhu 6:23; 1Ti 4:8; g-E 7/07 8-9*)

Mae'n pwysleisio Teyrnas Dduw fel yr unig obaith i'r ddynoliaeth; yn dangos sut y mae'r llywodraeth nefol hon yn erfyn am sancteiddio enw Duw ac at gyflawnhau ei sofraniaeth (*Da 2:44*)

Mae'n goleuo'r llwybr sydd angen ei droedio fel bod gennym ni berthynas bersonol gyda'n Creawdwr a Rhoddwr Bywyd (*In 17:3; 1Ti 6:12; 1In 5:20*)

Nid oes cymhariaeth rhwng y bywyd gorau a hapusaf nawr, a'r un sydd i ddod ar ddaear newydd Duw

O wybod pwrpas Duw ar gyfer y ddynoliaeth, a ydyn ni'n barod i addasu'n bywydau nawr?

Yn unol â'r hyn rydyn ni wedi ei ddysgu, oni ddylwn ni ganiatáu i'r Beibl ein harwain at y nod o fywyd tragwyddol?

YMDDIRIEDWCH YNG NGHYFARWYDDYD Y BEIBL SYDD WEDI'I YSBRYDOLI GAN DDUW (4 mun.)

Dyma lyfr o werth heb ei debyg sy'n haeddu ei ddarllen, a'i astudio

Agorwch y Beibl yn llawn hyder, mae'n gwbl gywir, ddibynadwy ac yn ddilys (*Sal 78:7; w05-E 7/15 4-6; w98-E 4/1 14-20*)

Mae pob rhan o'r Beibl "wedi ei hysbrydoli gan Dduw" (2Ti 3:16; 2Pe 1:20, 21; *w97*-E 6/15 6-8; *it-1*-E 1204)
Yn tarddu o'i unig awdur Jehofa, mae'r Beibl yn cyflwyno neges unigryw

I bawb sy'n croesawu neges y Beibl y mae undod meddwl, lleferydd, ac ymddygiad (Seff 3:9; Rhu 15:5, 6)

A ydych chi'n dymuno cael eich arwain i fywyd tragwyddol ar baradwys ddaear gyda'r un sicrwydd â mudiant y sêr yn eu cylchdroeon, a'r sicrwydd o'r cyfeiriad greddfodol y mae Duw wedi ei roi i adar?

Yna gadewch i'r Beibl eich tywys (Sal 119:105)

(Arhoswch yn agos i'r deunydd a amlinellwyd, a chadwch at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. Does dim rhaid darllen na thrafod pob testun)

Rhif 169-W—tudalen 2

I'W DRADDODI MEWN 30 MUNUD

© 2007 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania